



Annwyl bawb

Wrth i mi ysgrifennu hyn, mae diwydiant bwyd a dod Cymru wedi bod dan gysgod pandemig y coronafeirws ers blwyddyn gron. Rydyn ni'n gwybod ei bod hi wedi bod yn gyfnod anodd a chythryblus dros ben i lawer o fusnesau, yn enwedig am fod y sialens bellach yn ddeublyg yn sgil effeithiau ymadawiad y DU â'r UE.

Fodd bynnag, mae llwyddiant y rhaglen frechu ledled Cymru a gweddill y DU yn gam addawol a chadarnhaol i'r cyfeiriad iawn, ac rydyn ni'n gobeithio y bydd yn caniatáu i fusnesau lletygarwch ddechrau ailagor mewn pryd ar gyfer tymor pwysig y gwyliau haf er mwyn i'r cadwyni cyflenwi yna lewyrchu unwaith eto.

Gyda'r adferiad a'r ailagor yma mewn golwg, mae'r Bwrdd wedi bod yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i helpu i lunio ymgyrch gwerthoedd brand cynaliadwy a gweledigaeth strategol ar gyfer dyfodol y diwydiant bwyd a diod. Mae'r rhain yn elfennau pwysig ar gyfer ein dyfodol, am y byddant yn siapio ein dull o fynd ati mewn marchnadoedd domestig, y DU a byd-eang. Rydyn ni wedi croesawu pum aelod newydd i'r Bwrdd hefyd er mwyn helpu i gynnal a llywio'r diwydiant trwy'r cyfnod allweddol yma. Mae'r aelodau newydd yma'n dod â chyfoeth o brofiad a fydd yn ategu'r gwaith y mae'r Bwrdd eisoes yn ei wneud i sicrhau llwyddiant parhaus y sector.

Rydyn ni'n dal i gydweithio'n agos iawn â'r grwpiau Clwstwr hefyd. Yn ddiweddar rhannodd y Clwstwr Diodydd lwyddiannau ei ymgyrch Diodydd Cymreig y Nadolig gyda'r Bwrdd, a'i gynlluniau i barhau ag ymgyrchoedd tebyg trwy gydol 2021. Mae aelodau'r Bwrdd yn gysylltiedig â grwpiau Clwstwr penodol ac maen nhw'n gweithio i hyrwyddo a datblygu gwerthiannau ar lein, helpu i feithrin modelau busnes gwydn, mynd i'r afael â rheoli risg, edrych ar ychwanegu gwerth at gadwyni cyflenwi, cyfeirio at gyllid fforddiadwy, a datblygu achrediad, hyfforddiant a sgiliau ar gyfer y diwydiant.

Wrth gwrs, ers fy niweddariad diwethaf, mae effeithiau Brexit wedi dechrau dod i'r amlwg. Er bod rhai busnesau'n gweld llif masnach yn dechrau gwella, rydyn ni'n gwybod bod trafferthion sylweddol wedi bod ynghylch y rheolau newydd sy'n gysylltiedig ag allforio a ddaeth i rym ar 1 Ionawr, ac yn enwedig ym meysydd Grwpio, Cynnyrch o Darddiad Anifeiliaid a masnachu gyda Gogledd Iwerddon.

Bydd llawer o fusnesau eisoes wedi dechrau paratoi ar gyfer y newid yn y rheolau mewnforio a oedd i fod i ddod i rym ar 1 Ebrill, ond adeg ysgrifennu, mae'r newidiadau hyn wedi cael eu gohirio. Bydd llawer o fusnesau nad ydynt wedi paratoi ar gyfer y diwygiadau i'r rheolau mewnforio eto yn croesawu hyn, a bydd yn rhoi amser i eraill edrych ar eu cadwyni cyflenwi a chynllunio ar gyfer unrhyw broblemau ac effeithiau a allai godi.

Ar 4 Mawrth 2021, gohiriodd Senedd Ewrop ddyddiad ei benderfyniad i ddilysu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) a oedd i fod i ddigwydd ar 25 Mawrth, a hynny oherwydd anghydfod am

fasnachu gyda Gogledd Iwerddon. Mae'r trafodaethau'n parhau, ond mewn theori, mae hyn yn golygu bod yna risg o hyd y gallai'r tariffau ddod yn realiti ym mis Mai os na ellir dod i gytundeb dros Ogledd Iwerddon.

Fel rydw i wedi ei ddweud o'r blaen, yn y cyd-destun a'r hinsawdd ansicr sydd ohoni, mae hi'n bwysicach nag erioed fod Cymru'n aros yn hyblyg ac yn agored i'r cyfleoedd y mae unrhyw Gytundebau Masnach Rydd (FTAs) yn eu cynnig. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n allforio tua 10% o'n bwyd a diod, ac er gwaetha'r sialensiau cyfredol o ran allforio, mae yna gyfleoedd i allforio mwy o lawer. Mae angen i ni sicrhau fod gennym strategaeth ar bolisi rhyngwladol, rhaid i ni fod yn glir ynghylch ymhle mae gennym fantais gystadleuol, a rhaid i ni fod â chynlluniau ymatebol ac amddiffynnol o fewn y strategaethau allforio yma.

Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yma i gefnogi'r sector yn hyn o beth, trwy wrando ar fusnesau, bod yn glir ynghylch beth y mae Cymru am ei gael o'r cytundebau hyn, a thrwy sicrhau dirnadaeth o'r trafodaethau sy'n digwydd ar bob lefel o fewn y llywodraeth, yng Nghymru ac yn San Steffan.

Fel Bwrdd, rydyn ni'n awyddus iawn i barhau i gysylltu â'r diwydiant. Croeso i chi gysylltu â mi neu ag unrhyw aelod o'r Bwrdd i godi pryderon, tynnu sylw at broblemau a rhannu eich llwyddiannau – dim ond trwy gydweithio a dysgu gyda'n gilydd y gall y diwydiant barhau i lewyrchu.

Fy niolch parhaus i'r busnesau lu sydd wedi brwydro'u ffordd trwy'r holl stormydd, gweithio i gadw bwyd ar blatiau'r genedl ac wedi ymladd i gadw busnesau a swyddi'n mynd yn y cyfnod eithriadol o anodd yma.

Bydd y cydweithio, yr hyblygrwydd a'r ansawdd cynhenid yma'n ein helpu ni i ddiogelu ffyniant a thwf ein diwydiant at y dyfodol.

Andy Richardson, Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru